

STRATEGAETH GAFFAEL 2017-20



MEDI 2018

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Crynodeb gweithredol gan gynnwys meysydd ffocws a heriau	9
3. Trefniadau llywodraethu a deddfwriaeth caffael	16
4. Cyfrannu at nodau, polisiau a blaenoriaethau strategol Cymwysterau Cymru	18
5. Llwybr y ddogfen	20

1. Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru yn cydnabod yr effaith y gall prosesau caffael llwyddiannus ei chael ar ei allu i gyflawni ei weithgareddau yn effeithiol ac yn effeithlon yn ogystal â'u heffaith ehangach ar yr economi a chymunedau yng Nghymru.

Yn unol â'i nodau, rydym yn ymwybodol iawn o'r effaith a gaiff ein gweithgarwch caffael ar ddysgwyr, cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Rydym wedi ymdrechu i sicrhau ein bod yn darparu'r gwerth gorau am arian drwy gaffael.

Mae'r tîm caffael yn gyfrifol am yr holl brosesau a systemau caffael, yn gallu rhoi fetu ar unrhyw wariant caffael, yn adolygu pob gwariant caffael dros £6,000 (gan gynnwys TAW), gan roi cymorth mewn perthynas â cheisiadau am ddyfynbrisiau, ac yn cynnal y broses dendro ar gyfer pob gwariant dros £30,000 (gan gynnwys TAW). Mae'r tîm yn rhoi cyngor ac arweiniad proffesiynol i'r holl staff sy'n cyflawni gweithgarwch caffael.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17, roedd gwariant y gallai Cymwysterau Cymru ddylanwadu arno yn cyfateb i £1.1m wedi'i rhannu rhwng 214 o gyflenwyr.

Mae gennym yr hawl, o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2014, i gyfyngu ar gymwysterau a all arwain at gomisiynu cymwysterau o dan Reoliadau Contractau Consesiwn 2016. Yn 2016-17, gwnaethon ddyfarnu cytundeb consesiwn ar gyfer cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n werth £11.2m dros saith mlynedd.

Ym mis Ionawr 2016, cafodd y Polisi Caffael ei gymeradwyo gan ein Bwrdd Rheoli. Mae'r polisi yn amlinellu'r egwyddorion rydym yn eu dilyn wrth gyflawni gweithgarwch caffael a chomisiynu er mwyn sicrhau ein bod yn deg, yn dryloyw ac yn gymesur ac yn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae'r egwyddorion hyn yn llywio'r meysydd gwaith sy'n rhan o'r strategaeth hon.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, rydym wedi defnyddio Model Aeddfedrwydd Caffael Llywodraeth Cymru (y Model) i bennu'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i fesur aeddfedrwydd ein swyddogaeth gaffael.


Mae'r Model yn helpu sefydliadau i wella eu strwythur, eu gallu, eu prosesau a'u perfformiad drwy gyflawni'r safonau gorau sy'n briodol i faint a chymhlethdod eu busnes. Mae'r Model yn asesu gallu mewn meysydd allweddol yn erbyn meini prawf a safonau cyffredin a fydd yn ein galluogi i nodi meysydd lle mae arfer gorau eisoes yn bodoli, meysydd lle mae bylchau a meysydd lle gellir gwneud arbedion a gwelliannau parhaus. Mae ein canfyddiadau a'r meysydd ffocws a fydd yn helpu i ddatblygu ein haeddfedrwydd caffael i'w gweld yn y Crynodeb. Rydym hefyd yn nodi'r heriau a allai ein hwynebu i'w gweld yn y Crynodeb. Rydym wedi cynnwys sgôr ar gyfer pob un o nodweddion y Model sy'n dangos ble mae angen i ni dargedu'r adnoddau mwyaf er mwyn gwella.

Yn ogystal â'r gwariant trydydd parti arferol y disgwylir ei weld ymhlith sefydliadau'r sector cyhoeddus, (megis TGCh, gwasanaethau cyfreithiol, cyflenwadau swyddfa a chyfleusterau), mae gennym hefyd ofynion sy'n fwy penodol i reoleiddiwr cymwysterau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, gomisiynu ymchwil sy'n ymwneud â chymwysterau a'r system gymwysterau. Rydym hefyd yn gwario swm sylweddol o'n

cyllideb ar gyfer eitemau ar wahân i gyflogau ar gyngorwyr pwnc arbenigol i'n helpu i adolygu, datblygu, cymeradwyo a monitro cymwysterau ar gamau amrywiol. Mae sail gyflenwi eang ar gyfer y gofyniad hwn, sy'n amrywio o athrawon a gyflogir yn gyfan gwbl gan ysgolion a cholegau i ymgynghorwyr addysgol hunangyflogedig a chwmnïau sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Mae hyn yn golygu bod gennym nifer fawr o gyflenwyr a gaiff eu cyfrif yn unig fasnachwyr sy'n peri risg uwch o safbwynt parhad y cyflenwad a gweledd trefniadau ariannol.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfran yr arian rydym yn ei wario ar wahanol fathau o gyflenwyr yn seiliedig ar eu ffurf gyfreithiol. Cwmnïau cyfyngedig sy'n denu'r gwariant mwyaf (55%) gydag unig fasnachwyr yn denu'r lefel uchaf o wariant ond un.

**Gwariant ar ddarparwyr yn ôl math o sefydliad
2016-17**




- Cwmni cyfyngedig
- Unig fasnachwr
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
- Corff cyhoeddus arall
- CCC
- Partneriaeth fusnes gyffredin
- Awdurdod lleol
- Elusennol gan gynnwys cymdeithas
- Corff dyfarnu
- Tramor
- Corff llywodraeth ganolog

Mae'n bwysig bod y Strategaeth Gaffael yn cydnabod yr amrywiaeth o ofynion sydd gennym. Mae hyn yn cynnwys y ffaith bod rhai o'n contractau yn gymharol isel o ran gwerth ond yn bwysig iawn i'r busnes; a phwysigrwydd defnyddio sail gyflenwi amrywiol er mwyn sicrhau ein bod yn cael ymatebion o ansawdd i wahoddiadau i dendro a cheisiadau am ddyfynbrisiau ac yn dyfarnu contractau llwyddiannus. Yn benodol, mae angen i ni gefnogi ein cyflenwyr amrywiol er mwyn sicrhau nad oes rhwystrau iddynt gynnig am waith a pherfformio yn erbyn ein contractau.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r £1.1m o wariant yn 2016-17 y gallai ein tîm caffael ddylanwadu arno. Nid yw'r swm hwn yn cynnwys gwariant blynyddol o £180,000 ar renti ac ardrethi.

Gwariant fesul maes nwyddau 2016-17



- TGCh
- Arbennigwyr pwnc
- Cyfleusterau
- Hyfforddiant
- Ymchwil
- Ymgynghoriaeth
- Cyfeithiol
- Cyfieithiadau
- Erill (llai na 5%)

Rydym wedi mapio categorïau ein gwariant trydydd parti yn y matrices cyflenwi isod:

<p>TROSOLEDD (gwerth uchel risg isel) Teithio busnes Band eang Ymgynghoriaeth - amrywiol Rheoli Cyfleusterau Trwyddedau TGCh Microsoft (gan gynnwys CRM)¹ Caledwedd TGCh Gwasanaethau archwilio mewnol Gwasanaethau cyfreithiol - masnachol a chyflogaeth Hysbysebu yn y cyfryngau Gwasanaethau arbenigwyr pwnc² Hyfforddiant Cyfieithiadau Cymraeg</p>	<p>STRATEGOL (gwerth uchel risg uchel) Ymgynghoriaeth - amrywiol Casglu data (Ofqual) Cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol TGCh - cronfa ddata QiW Gwasanaethau cyfreithiol - rheoleiddiol Mesur Hyder y Cyhoedd Ymchwil Gwasanaethau arbenigwyr pwnc</p>
<p>ARFEROL (gwerth isel risg isel) Gwasanaeth bancio Arlwyo Llogi ceir Gwasanaethau cymorth i gyflogaion Yswiriant Cyfathrebu symudol Rhenti dyfeisiau amlswyddogaeth Gweisg torri Gwasanaethau argraffu Cyfleustodau Ymchwil* Offer swyddfa Gwasanaethau arbenigwyr pwnc*</p>	<p>ATALIOL (gwerth isel risg uchel) Ymchwil Gwasanaethau arbenigwyr pwnc TGCh – ymgynghoriaeth CRM TGCh - Meddalwedd Cyllid ac Adnoddau Dynol</p>

¹ Mae TGCh yn ymddangos mewn mwy nag un cwadrant. Mae'r cyfanswm gwariant yn uwch, fodd bynnag mae gwerth a risg contractau unigol yn amrywio. Gweler troednodiadau 2 a 3 am gategorïau tebyg.

² Mae gwasanaethau arbenigwyr pwnc yn ymddangos mewn mwy nag un cwadrant.

³ Mae gwasanaethau ymchwil yn ymddangos mewn mwy nag un cwadrant.

Mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau o dan y penawdau 'Strategol ac Ataliol' yn cyfrannu at y prif nodau busnes ac ystyriwyd eu bod yn uchel eu risg oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chael cyflenwr newydd naill ai am fod y sail gyflenwi yn fach neu am fod y gwasanaethau dan sylw yn rhai hirdymor. Mae gan y categorïau Strategol wariant o fwy na £30,000 y flwyddyn. Rydym wedi cynnwys rhai contractau is eu gwerth pan fo'r rheini yn bwysig i'r sefydliad.

Fodd bynnag, nid oes gennym unrhyw wariant caffael ar y contractau consesiwn ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol - gan fod gwerth a risg y contractau hyn yn uchel, maent yn gontractau strategol.

Byddwn yn diweddarau neu'n datblygu strategaethau nwyddau ar gyfer y meysydd strategol, ataliol a throsoledd yn seiliedig ar y dull a ddangosir isod:

<p>Eitemau trosoledd</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Ffynonellau cyflenwi eraill sydd ar gael ● Dewisiadau eraill yn bosibl <p>Cynigion cystadleuol</p>	<p>Eitemau strategol</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Hollbwysig o ran pris cost y cynnyrch ● Dibyniaeth ar gyflenwr <p>Partneriaeth seiliedig ar berfformiad</p>
<p>Eitemau arferol</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Amrywiaeth mawr o gynhyrchion ● Logisteg cymhleth iawn ● Llafur-ddwys <p>Contractio systemau + atebion e-fasnach</p>	<p>Eitemau ataliol</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Marchnad fonopolistig ● Rhwystrau mynediad mawr <p>Cyflenwad sicr + chwilio am ddewisiadau amgen</p>

2. Crynodeb gweithredol

Mae'r Strategaeth Gaffael hon (y 'Strategaeth') yn rhoi fframwaith clir ar gyfer gweithgarwch caffael yn Cymwysterau Cymru dros dair blynedd, gan ddysgu gwersi o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma, fel bod y tîm caffael yn helpu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion. Fel y soniwyd uchod, defnyddiwyd y Model Aeddfedrwydd Caffael fel fframwaith i'r gwaith hwn. Rydym wedi cysylltu pob un o egwyddorion y polisi caffael â'r Model er mwyn dangos sut rydym yn rhoi'r polisi ar waith.

Mae'r Strategaeth yn ymdrin â'r meysydd ffocws a'r heriau ym maes caffael dros dair blynedd yn dechrau o 1 Medi 2017. Drwy adolygu gweithgarwch a gwersi a ddysgwyd hyd yma, rydym wedi pennu meysydd ffocws a fydd yn sicrhau swyddogaeth gaffael ymatebol o ansawdd uchel.

Rydym wedi ystyried yr adnodd caffael proffesiynol sydd ar gael (dau berson) wrth gynllunio ein gweithgarwch. Rydym yn cydnabod bod angen i ni ddyrannu ein hadnodd yn effeithiol er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r sefydliad.

Mae'r canlynol yn crynhoi sgorau ein hunanasesiad a'n cynnydd yn erbyn y Model:

Sgôr aeddfedrwydd	0	1	2	3	4
Disgrifiad	Ddim yn cydymffurfio	Yn dechrau cydymffurfio	Cydymffurfio	Yn dechrau anelu at lefel uwch	Uwch

Nodwedd	Sgôr aeddfedrwydd	Disgrifiad
Arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu ym maes caffael	3	Yn dechrau anelu at lefel uwch
Strategaeth ac amcanion caffael	2	Cydymffurfio
Diffinio'r angen o safbwynt cyflenwi	3	Yn dechrau anelu at lefel uwch
Strategaethau nwyddau / prosiect a chaffael ar y cyd	3	Yn dechrau anelu at lefel uwch
Rheoli contractau a chyflenwyr	2	Cydymffurfio
Prosesau a systemau prynu allweddol	3	Yn dechrau anelu at lefel uwch
Pobl	2	Cydymffurfio
Rheoli perfformiad	1	Yn dechrau cydymffurfio
Sgôr gyffredinol	3	Yn dechrau anelu at lefel uwch

Ar ôl adolygu ein gweithgarwch yn unol â'n blaenoriaethau strategol, y Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol a'r Model Aeddfedrwydd Caffael, rydym wedi nodi'r gweithgareddau canlynol y bydd y tîm caffael yn canolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf. Mae'r rhain wedi'u rhannu o dan y meysydd ffocws a nodwyd yn y Cynllun Strategol ar gyfer Gallu Corfforaethol:

- Galluogi ein gwaith rheoleiddio
- Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau
- Cynnal a defnyddio sgiliau caffael proffesiynol
- Llywodraethu gweithgarwch caffael a rheoli contractau yn effeithiol ac yn effeithlon
- Gwerthuso a gwella'n barhaus

Meysydd ffocws

Maes ffocws 1

Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau

Rydym yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy ein pobl ac o'n gwariant. Byddwn yn:

- ystyried defnyddio trefniadau caffael ar y cyd bob amser pan fo'r rhain o fudd i Cymwysterau Cymru;
- ystyried cyfleoedd i arwain gwaith ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill a rhoi cymorth caffael pan fo hynny'n briodol;
- parhau i wneud gwaith ymchwil ac ymgysylltu â'r farchnad i sefydlu'r dull cyrchu a'r canlyniadau gorau ar gyfer ymarferion caffael gwerth uchel / risg uchel a hyrwyddo ein cyfleoedd er mwyn goresgyn yr her sy'n ein hwynebu o ran diffyg diddordeb a chyflawni'r polisi ar gyfer busnesau bach a chanolig;
- datblygu strategaethau categori ysgrifenedig ar gyfer pob maes nwyddau risg uchel a /neu werth uchel – y meysydd â blaenoriaeth yw TGCh ac ymgynghoriaeth;
- dangos sut rydym yn ystyried datblygu cynaliadwy ar bob cam o'r cylch caffael;
- parhau i reoli ein contractau er mwyn sicrhau eu bod yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Maes ffocws 2

Manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau

Rydym yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau am arian drwy ein pobl ac o'n gwariant. Byddwn yn:

- ystyried defnyddio trefniadau caffael ar y cyd bob amser pan fo'r rhain o fudd i Cymwysterau Cymru;
- ystyried cyfleoedd i arwain gwaith ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill a rhoi cymorth caffael pan fo hynny'n briodol;
- parhau i wneud gwaith ymchwil ac ymgysylltu â'r farchnad i sefydlu'r dull cyrchu a'r canlyniadau gorau ar gyfer ymarferion caffael gwerth uchel / risg uchel a hyrwyddo ein cyfleoedd er mwyn goresgyn yr her sy'n ein hwynebu o ran diffyg diddordeb a chyflawni'r polisi ar gyfer busnesau bach a chanolig;
- datblygu strategaethau categori ysgrifenedig ar gyfer pob maes nwyddau risg uchel a /neu werth uchel – y meysydd â blaenoriaeth yw TGCh ac ymgynghoriaeth;
- dangos sut rydym yn ystyried datblygu cynaliadwy ar bob cam o'r cylch caffael;
- parhau i reoli ein contractau er mwyn sicrhau eu bod yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Maes ffocws 3

Cynnal, datblygu a defnyddio sgiliau caffael proffesiynol

Rydym yn gyfrifol am swm sylweddol o arian cyhoeddus a gaiff ei wario ar brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith a dyfarnu contractau consesiwn gwerth uchel i ddatblygu a darparu cymwysterau cyfyngedig. Er mwyn sicrhau bod gan ein gweithwyr caffael proffesiynol y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau masnachol priodol i reoli'r gweithgarwch caffael hwn, bydd y tîm caffael yn:

- cynnal aelodaeth staff o'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS);
- ymgymryd ag o leiaf 30 awr o weithgarwch datblygu proffesiynol parhaus bob blwyddyn;
- ymwybodol o unrhyw newidiadau deddfwriaethol perthnasol;
- mynd i ddigwyddiadau rhwydweithio ym maes caffael;
- mynd i sesiynau briffio ar waith timau eraill.

Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n dealltwriaeth i wneud y canlynol:

- helpu i gomisiynu cymwysterau;
- cefnogi pob gweithgarwch caffael cystadleuol.

Maes ffocws 4

Llywodraethu gweithgarwch caffael a rheoli contractau yn effeithiol ac yn effeithlon

Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig llywodraethu prosesau dyfarnu a rheoli contractau yn dda. Rydym wedi rhoi systemau a phrosesau ar waith sydd:

- yn cydymffurfio â deddfwriaeth;
- yn dryloyw, yn deg ac yn gymesur;
- yn gwreiddio dirprwyaethau a dyletswyddau ar wahân os oes gwrthdaro.

Byddwn yn:

- adolygu ein systemau a'n prosesau yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer gorau a safonau a deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llwrwobrwyo 2010 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 gan roi ystyriaeth ddyledus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg 2011;
- hysbysu staff am systemau a phrosesau caffael a rheoli contractau er mwyn sicrhau bod gan unigolion sy'n gysylltiedig â chaffael a rheoli contractau y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

Maes ffocws 5

Gwerthuso a gwella'n barhaus

Rydym yn deall pwysigrwydd mesur ein perfformiad ein hunain a pherfformiad ein chyflenwyr er mwyn dangos gwerth am arian a nodi meysydd i'w gwella.

Byddwn yn:

- parhau i ddatblygu ein system rheoli contractau o fewn ein CRM er mwyn cofnodi perfformiad contractwyr yn erbyn mesurau y cytunwyd arnynt;
- rhoi prosesau ar waith i gael adborth rheolaidd gan dimau mewnol a chyflenwyr;
- dadansoddi data er mwyn cefnogi ein strategaethau categori;
- dangos tystiolaeth o arbedion neu feincnodi gwariant gan ddefnyddio dull 'llyfr agored' pan fo hynny'n briodol;
- rhoi adroddiad ar berfformiad i'r Bwrdd Rheoli o leiaf unwaith y flwyddyn ac i'r Bwrdd ar gais.

Heriau


Gwyddom, wrth gyflawni'r meysydd ffocws, y byddwn yn wynebu'r heriau canlynol:

- Sicrhau y gallwn gyflawni gweithgarwch caffael a chomisiynu a gynlluniwyd gan ddefnyddio ein hadnoddau ac ymateb i newidiadau mewn blaenoriaethau a gofynion newydd ar yr un pryd;
- Diffyg diddordeb gan gyflenwyr mewn cyfleoedd contract am fod ein contractau yn gymharol isel eu gwerth, sy'n golygu efallai na fydd cystadleuaeth neu na fydd cytundebau yn rhoi gwerth am arian;
- Dibynnu ar ymgysylltu â chyrff cyhoeddus eraill i hyrwyddo'r agenda gydweithredol;
- Rhoi newidiadau deddfwriaethol ar waith a all fod yn feichus o gofio ein maint a natur ein gwaith;
- Dylanwadu ar bolisi caffael Llywodraeth Cymru fel corff bach a noddir.

3. Trefniadau llywodraethu a deddfwriaeth caffael

Yn fewnol, caiff gweithgarwch caffael ei oruchwylio gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae ein harchwilwyr mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â'n trefniadau llywodraethu caffael.

Mae ein gweithgarwch caffael yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Pan fyddwn yn dewis comisiynu gwaith i ddatblygu a chyflwyno cymwysterau cyfyngedig o dan gytundeb consesiwn, rydym yn ddarostyngedig i Reoliadau Contractau Consesiwn 2016. Mae'r ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth yn gweithredu gofynion cyfarwyddebau caffael yr Undeb Ewropeaidd.



Wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith, mae gofyn i ni hefyd gydymffurfio ag egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru ac mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â deddfwriaeth ehangach fel Deddf Llwgrwobrwyo 2010, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Rydym hefyd yn rhoi ystyriaeth ddyledus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg 2011.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gyflwyno deddfwriaeth i fandadu arferion caffael amrywiol ac mae wrthi'n ystyried yr opsiynau yng ngoleuni adborth i'r ymgynghoriad a chynllun y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb". Mae'r ddogfen hon yn nodi pedwar ysgogiad y bwriedir eu defnyddio i sicrhau ffyniant: cynllunio, buddsoddi mewn seilwaith, pwerau trethu a chaffael. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysleisio gwerth caffael cyhoeddus fel gweithgarwch a all helpu busnesau yng Nghymru i dyfu.

4. Cyfrannu at nodau, polisiau a chynllun gweithredol Chymwysterau Cymru

Fel swyddogaeth gorfforaethol, mae'r swyddogaeth gaffael yn gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth berthnasol ac arfer gorau a chefnogi ein gweithgareddau rheoleiddio. Mae gan staff caffael rôl i'w chwarae hefyd wrth herio'r sefydliad i feddwl am y ffordd orau o gynyddu gwerth am arian i'r eithaf wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau a chomisiynu cymwysterau.

Mae'r adran hon yn disgrifio'r hyn y bydd y swyddogaeth gaffael yn ei wneud i gefnogi blaenoriaethau strategol Chymwysterau Cymru.

Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Cyffredinol

Sut y bydd caffael yn cefnogi'r flaenoriaeth hon?

- ✓ Darparu cymorth caffael a rheoli contractau mewn perthynas â gwasanaethau ymgynghori ac ymchwil;
- ✓ Caffael a rheoli gwasanaethau arbenigwyr pwnc ar gyfer cymeradwyaethau;
- ✓ Caffael gwasanaethau ymgynghori i roi sicrwydd ynglŷn â gallu TG y corff sy'n cyflenwi cymwysterau cyffredinol cymeradwy.

Darparu'r agweddau ar ein gwaith sy'n ymwneud â Chymwysterau Galwedigaethol

Sut y bydd caffael yn cefnogi'r flaenoriaeth hon?

- ✓ Rheoli'r broses gomisiynu neu ddethol ar gyfer datblygu a darparu cymwysterau galwedigaethol cyfyngedig;
- ✓ Darparu cymorth rheoli contractau ar gyfer contractau consesiwn;
- ✓ Caffael a rheoli gwasanaethau arbenigwyr pwnc ar gyfer adolygiadau sector, gwaith datblygu cynnwys a chymeradwyaethau;
- ✓ Caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori;
- ✓ Darparu cymorth rheoli contractau ar gyfer contractau gwasanaethau arbenigwyr pwnc sy'n ymwneud â monitro cymwysterau galwedigaethol.

Darparu'r agweddau rheoleiddiol craidd ar ein gwaith

Sut y bydd caffael yn cefnogi'r flaenoriaeth hon?

- ✓ Caffael a darparu cymorth rheoli contractau ar gyfer arbenigwyr pwnc sy'n cyflawni gweithgarwch monitro.
- ✓ Caffael a rheoli contractau ar gyfer gwasanaethau ymgynghori.

Ymgysylltu â'r system gymwysterau yng Nghymru a'i chefnogi

Sut y bydd caffael yn cefnogi'r flaenoriaeth hon?

- ✓ Darparu cymorth rheoli contract ar gyfer y contract sy'n mesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau;
- ✓ Caffael a rheoli contractau ar gyfer gwasanaethau ymchwil;
- ✓ Cyflawni gweithgarwch caffael ar gyfer cyfathrebu neu ddigwyddiadau.

Parhau i ddatblygu ein galluedd a'n hadnoddau corfforaethol

Sut mae caffael yn cefnogi'r flaenoriaeth hon?

- ✓ Caffael a rheoli contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar ein timau corfforaethol;
- ✓ Adolygu'r holl weithdrefnau a chanllawiau caffael a rheoli contractau er mwyn sicrhau eu bod yn syml i'w deall ac yn hawdd i'w dilyn;
- ✓ Rhoi hyfforddiant ar gaffael a rheoli contractau i staff perthnasol;

Drwy roi'r strategaeth hon ar waith, credwn y byddwn yn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr yng Nghymru gan hyrwyddo polisi Llywodraeth Cymru a phrif nodau Cymwysterau Cymru ar gyfer dysgwyr a'r system gymwysterau yng Nghymru.

5. Llwybr y ddogfen

Perchennog y ddogfen	Elizabeth Frizi
Fersiwn	1.0
Dyddiad cymeradwyo	
Corff cymeradwyo	Y Bwrdd Rheoli
Dyddiad adolygu'r ddogfen	Mehefin 2018
Cynulleidfa'r ddogfen	Pob aelod o staff
Cyhoeddwyd yn Fewnol/Allanol	Mewnol / Allanol



Adeilad Q2,
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR

☎ 01633 373 222



YouTube